

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam**

---

# **Strategaeth Hybu'r Gymraeg**

**2016 - 2021**





## **Rhagair gan yr Aelod Arweiniol dros yr Iaith Gymraeg, y Cyng. Hugh Jones**

Fel Aelod Arweiniol ar gyfer y Gymraeg yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, mae'n bleser mawr gen i gyflwyno'r strategaeth 5 mlynedd hon i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn y Fwrdeistref Sirol. Rwyf wedi ymrwymo'n bersonol i weithredu'r strategaeth hon, ac rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda'n holl bartneriaid i sicrhau bod ei gweledigaeth yn cael ei wireddu.

Mae'r strategaeth hon wedi cael ei chyflwyno ar adeg anodd iawn i lywodraeth leol ac yn cael ei gosod yn erbyn cefndir o lai o arian cyhoeddus ac ymgyrch fewnol i wneud arbedion sylweddol. Er gwaethaf hyn mae'r Cyngor yn barod i ymateb i'r her ac mae'n uchelgeisiol o ran ei awydd i gyflawni'r canlyniadau fel yr amlinellir yn y strategaeth hon. Gobeithiaf y bydd hyn yn sicrhau bod y nifer o siaradwyr Cymraeg yn cael ei gynnal o leiaf, gyda'r bwriad y bydd yn arwain at gynnydd yn y defnydd o Gymraeg a siaredir yn y Fwrdeistref Sirol, ac yn rhoi cyfle i breswylwyr Cymraeg gael byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r Cyngor yn realistig o ran ei ddyheadau ac yn sylweddoli y bydd y gwaith sydd ei angen i gyflawni canlyniadau llwyddiannus yn cymryd amser. Fodd bynnag, mae'n parhau'n ymrwymedig i'r nod o ledaenu'r defnydd o'r Gymraeg ymhellach drwy'r Fwrdeistref Sirol. Rwy'n arbennig o awyddus i annog pobl ifanc i rannu'r dyhead hwn lle bydd ein trigolion o bob oedran yn defnyddio'r Gymraeg bob dydd.

Rwy'n ddiolchgar i'n holl bartneriaid sydd wedi gweithio gyda'n gilydd i ddod â'r Strategaeth hon i fod a phwy fydd yn ein helpu i gyflawni hyn yn y blynyddoedd i ddod

Mae hwn yn gyfnod cyffrous a heriol ar gyfer yr iaith Gymraeg. Rwy'n benderfynol y bydd y strategaeth hon yn ddogfen fyw a fydd yn cyfrannu at greu Bwrdeistref Sirol sydd yn wirioneddol ddwyieithog.

**Y Cyngorydd Hugh Jones**  
**Dirprwy Arweinydd**

## 1. Ein Gweledigaeth

- 1.1 I hwyluso, cynyddu a hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn y Fwrdeistref Sirol a rhoi cyfle i breswylwyr fyw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno; i greu gwell dealltwriaeth o'r iaith a'r diwylliant Cymraeg ymysg preswylwyr Di-Gymraeg.

## 2. Cyflwyniad

- 2.1 Cafodd Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor ei ddisodli gan Safonau Iaith Gymraeg ar 30 Mawrth 2015, pan gyflwynodd Comisiynydd y Gymraeg Rybudd Cydymffurfio Terfynol i'r Cyngor, a oedd yn amlinellu'r 171 o Safonau y mae'n rhaid i'r Cyngor gydymffurfio â nhw – mae copi ar gael [yma](#). Cymeradwywyd a mabwysiadwyd y strategaeth hon gan y Bwrdd Gweithredol ym mis Tachwedd 2016.

- 2.2 Mae'r Mesur yn cynnwys:

- rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru sy'n golygu na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;
- sefydlu rôl Comisiynydd y Gymraeg sydd â chyfrifoldeb am hyrwyddo'r iaith Gymraeg a gwella'r cyfleoedd sydd gan bobl i'w defnyddio;
- creu gweithdrefn ar gyfer cyflwyno dyletswyddau ar ffurf safonau iaith sy'n esbonio sut y disgwylir i sefydliadau ddefnyddio'r iaith Gymraeg a chreu hawliau ar gyfer siaradwyr Cymraeg;
- gwneud darpariaeth ynglŷn â hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg a chynyddu'r defnydd ohoni mewn bywyd bob dydd;
- gwneud darpariaeth ynghylch ymchwilio i ymyrraeth gyda'r rhyddid i ddefnyddio'r iaith Gymraeg.

- 2.3 Mae'r Hysbysiad Cydymffurfio a chyflwyno'r Safonau yn golygu bod mwy o ofyniad i'r Cyngor sicrhau ei fod yn darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg – a hynny naill ai ar bapur, rhyngrwyd, cyfryngau cymdeithasol a ffyrdd rhyngweithiol neu sgysiau wyneb yn wyneb/ dros y ffôn. Os yw'r Cyngor yn methu â chydymffurfio â'r posibilrwydd y bydd mewn perygl o gael cosbau ariannol.

- 2.4 Mae'r dyletswyddau a ddaw yn sgil y Safonau yn berthnasol i'r meysydd gweithredol canlynol:

- darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg;
- llunio polisiâu sy'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg;
- gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg;
- cadw cofnodion am yr iaith Gymraeg, ac yn olaf;
- hyrwyddo'r iaith Gymraeg

- 2.5 Mae Safon 145 yn nodi bod rhaid i bob awdurdod lleol gynhyrchu a chyhoeddi strategaeth 5 mlynedd sydd yn gosod sut y byddant yn hyrwyddo a hwyluso'r iaith

Gymraeg yn ehangach yn eu hardal; hefyd mae gofyn i Gynghorau gefnogi ac annog ei ddefnydd o fewn y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

- 2.6 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i hyrwyddo, cryfhau a llywio'r defnydd o'r Gymraeg, ac un o'r Egwyddorion Arweiniol yng Nghynllun y Cyngor (2014-17) yw "*laith Gymraeg - Cefnogi ac annog cwsmeriaid a staff i gyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg*". Yn 2017, gosododd y Cyngor weledigaeth, pwrpas ac egwyddorion newydd ar gyfer yr Awdurdod, sydd yn amlinellu sut y bydd yn ceisio darparu gwasanaethau yn y dyfodol. O'r chwe phrif egwyddor, un yw "i sicrhau bod gwasanaethau a gwybodaeth ar gael yn gyfartal yn y Gymraeg a'r Saesneg."
- 2.7 Mae gan y Cyngor saith ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg, un ysgol ddwyieithog ac un ysgol uwchradd Gymraeg. Mae'r Cyngor hefyd yn hyrwyddo treftadaeth a diwylliant Cymru gyda chyfres o ddigwyddiadau, cyngherddau ac arddangosfeydd drwy gydol y flwyddyn.
- 2.8 Mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth ag ystod o fudd-ddeiliaid lleol i symud ymlaen â'i agenda iaith Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys bod yn aelod o Fforwm Iaith Fflint a Wrecsam a gweithio'n strategol gydag ystod o sefydliadau eraill a chyrrff cyhoeddus megis Menter Iaith Fflint a Wrecsam, Coleg Cambria, Urdd Gobaith Cymru a Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr er mwyn rhannu enghreifftiau o arfer gorau, arbenigedd ac adnoddau.

### **3. Cyd-destun y Polisi**

- 3.1 Er bod Safonau'r Iaith Gymraeg yn ddatblygiad cymharol ddiweddar, mae wedi bod yn ofynnol i awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus eraill lunio Cynlluniau Iaith Gymraeg ers pasio Deddf yr Iaith Gymraeg yn 1993. Amlinellodd y Cynlluniau hyn eu bwriad i drin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.
- 3.2 Ers sefydlu Cynulliad Cymru cafwyd llu o bolisiau a strategaethau wedi'u hanelu at gynyddu'r niferoedd sy'n gallu siarad Cymraeg a hyrwyddo'r defnydd o'r iaith mewn bywyd bob dydd. Er enghraifft, yn 2003 cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gynllun cenedlaethol i greu Cymru ddwyieithog o'r enw Iaith Pawb.
- 3.4 Roedd y cyflwyniad i'r cynllun yn datgan bod '*Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r farn bod yr iaith Gymraeg yn rhan annatod o'n hunaniaeth genedlaethol. Mae'r iaith Gymraeg yn rhan hanfodol ac oesol o hanes, diwylliant a gwedd cymdeithasol ein cenedl. Rhaid i ni barchu'r etifeddiaeth honno a gweithio i sicrhau nad yw'n cael ei cholli ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.*'
- 3.5 Dyma oedd y tro cyntaf yn hanes hir y genedl i lywodraeth ymrwymo i'r egwyddor o greu Cymru wirioneddol ddwyieithog. Y weledigaeth a gyflwynir yn *Iaith Pawb* yw gwlad '*Ile gall pobl ddewis byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg neu Saesneg a lle mae*

*presenoldeb y ddwy iaith yn ffynhonnell amlwg a hyglyw o falchder a chryfder i bob un ohonom.'*

- 3.6 Ym mis Ebrill 2012, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Strategaeth Iaith Gymraeg o'r enw - *laith fyw: iaith byw 2012-2017*. Mae'r strategaeth yn adlewyrchu gweledigaeth y llywodraeth ar gyfer cynyddu nifer y bobl sy'n siarad ac yn defnyddio'r iaith ac yn adeiladu ar y weledigaeth a amlinellir yn *Iaith Pawb*.
- 3.7 Mae amcanion y strategaeth yn cynnwys cynyddu darpariaeth addysg a gweithgareddau cyfrwng Gymraeg i blant a phobl ifanc, cryfhau'r Gymraeg yn y gymuned, cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio Gymraeg yn y gweithle, gwasanaethau Gymraeg gwell i ddinasyddion ac i gryfhau seilwaith yr iaith, sy'n cynnwys technoleg ddigidol.
- 3.8 Wrth benderfynu ar amcanion ei strategaeth ei hun, mae'r Cyngor wedi dewis mabwysiadu'r amcanion a amlinellir yn y strategaeth Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau ei fod yn gweithredu gydag amcanion cenedlaethol. Mae'r camau gweithredu i gefnogi'r amcanion hyn wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gweithredu ar ddiwedd y ddogfen hon - gweler adran 5.
- 3.9 Un o'r prif yrwyr yn y strategaeth '*laith Fyw: Iaith Byw 2012-2017*' yw pwysigrwydd system addysg cyfrwng Gymraeg gref fel sail tymor hir i hyrwyddo'r defnydd o Gymraeg ar draws amrywiaeth o feysydd cymdeithasol. Mae hwn yn weledigaeth y mae'r Cyngor yn llwyr gefnogi ac yn annog yn weithredol, buddsoddi mewn addysg cyfrwng Gymraeg.
- 3.10 Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn diweddarau ei Gynllun Strategol Gymraeg mewn Addysg [CSCA] 2017-2020 yn unol â chanllawiau gan Lywodraeth Cymru. Caiff y Cynllun ei gwblhau a'i fabwysiadu'n ffurfiol yn yr haf a bydd yn rhoi targedau, mesurau a chamau gweithredu i'r Cyngor ynglŷn ag addysg Gymraeg yn y Fwrdeistref Sirol. Gellir gweld cyfeiriad at y CSCA a'r rôl sydd ganddo i'w chwarae yn y strategaeth hon yn y Cynllun Gweithredu sy'n cefnogi'r Strategaeth hon. Mae'r CSCA yn ddogfen allweddol i'r Cyngor gan ei bod yn nodi gweledigaeth y Cyngor ar gyfer cynyddu a normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith ei blant a phobl ifanc, ac mae'n rhan annatod o lwyddiant y strategaeth hyrwyddo gyffredinol. Un o'r dogfennau polisi allweddol sy'n sail i'r weledigaeth hon oedd Strategaeth Addysg Cyfrwng Gymraeg Llywodraeth Cymru a lansiwyd yn 2010, a oedd yn ceisio ymateb i'r '*galw am addysg cyfrwng Gymraeg a chynyddu nifer y dysgwyr sy'n dod yn rhugl ac sy'n gallu defnyddio'r iaith yn eu cymunedau, gyda'u teuluoedd ac yn y gweithle*'. Cliciwch [yma](#) i weld y ddogfen.
- 3.11 Lluniwyd y Fframwaith Strategol *Mwy na Geiriau* gan Lywodraeth Cymru yn 2012, gyda'r nod o gryfhau gwasanaethau'r Gymraeg ym maes iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Mae'r fframwaith yn darparu ymagwedd systematig i wella gwasanaethau ar gyfer y rhai sydd angen eu gofal drwy gyfrwng y Gymraeg. I lawer o siaradwyr Gymraeg, mae'n cydnabod bod angen i'r gallu i ddefnyddio eich iaith eich hun gael ei ystyried yn gydran greiddiol i ofal ac nid fel rhywbeth dewisol ychwanegol. Mae

llawer o ddefnyddwyr gwasanaethau yn ddiamddiffyn iawn, felly mae rhoi cyfrifoldeb arnynt i ofyn am wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn annheg. Yn ganolog i'r strategaeth mae'r her o ddatblygu'r 'Cynnig Gweithredol', sef bod aelodau o staff yn cynnig gwasanaethau Cymraeg i gleifion, yn hytrach nag aros i gleifion ofyn amdanynt. Diweddarwyd y strategaeth yn 2016 gyda'r nod o sicrhau y bydd GIG Cymru, y gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol wedi prif ffrydio'r iaith Gymraeg ar gyfer bron pob agwedd ar eu busnes dyddiol.

- 3.12 Cafodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ei chyhoeddi gan Lywodraeth Cymru i wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n gofyn i gyrrff cyhoeddus feddwl yn fwy am yr hirdymor, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a gyda'i gilydd, edrych i atal problemau a chymryd ymagwedd fwy cydgysylltiedig. Mae'r Ddeddf yn rhoi saith nod lles ar waith, gan gynnwys *'cymdeithas sy'n hybu ac yn diogelu diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden.'*
- 3.12 Yn olaf, cafodd fersiwn ddrafft o'r strategaeth newydd yn dilyn y strategaeth gyfredol 'Iaith fyw: iaith byw 2012-2017' ei lansio yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Fenni yn 2016, gyda'r nod o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2051. Croesawyd hyn gan y Cyngor er ei fod yn cytuno gyda Llywodraeth Cymru ei fod yn nod uchelgeisiol.

#### 4. Proffil y Gymraeg yng Nghyngor Sir Wrecsam

Mae'r ddogfen hon wedi'i hatodi fel [Atodiad 1 a gellir ei gweld yma](#).

#### 5. Cynllun Gweithredu i hyrwyddo'r Iaith Gymraeg yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam erbyn 2021

##### TARGED CYFFREDINOL:

Cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol yn ystod oes y Strategaeth hon	Cyfrifiad 2001	Cyfrifiad 2011	Ar ôl 5 mlynedd (canlyniadau Cyfrifiad 2021)
	14.4% o'r boblogaeth yn rhugl yn y Gymraeg	12.9% o'r boblogaeth yn rhugl yn y Gymraeg	14.4%

Nod y Cynllun Gweithredu canlynol yw adeiladu ar y cynnydd a wnaed gan y Cyngor a'i bartneriaid wrth ddatblygu'r iaith Gymraeg yn y Fwrdeistref Sirol dros nifer o flynyddoedd. Mae'n gynllun 5 mlynedd sy'n canolbwyntio ar gynyddu nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg, cynyddu'r defnydd ohoni ym mhob agwedd ar gymuned a bywyd cyhoeddus a chodi ymwybyddiaeth o'i phwysigrwydd fel rhan hanfodol o hunaniaeth ddiwylliannol a chymeriad y

rhan hon o Ogledd Ddwyrain Cymru. Mae hefyd yn dangos ffordd newydd y Cyngor o weithio o ran y Gymraeg drwy sicrhau na fydd cwsmeriaid sy'n dymuno derbyn gwasanaethau drwy gyfrwng Cymraeg dan anfantais. Mae'r Cynllun Gweithredu yn adlewyrchu'r agwedd o bartneriaeth sy'n hanfodol i gyflawni'r nodau hyn. Er mai'r awdurdod lleol fydd y partner arweiniol yn y rhan fwyaf o weithgareddau arfaethedig, bydd rhai sefydliadau eraill yn well ar gyfer ymgymryd â'r rôl hon o bryd i'w gilydd.

### **Amcanion y Cyngor:**

#### **(a) Cryfhau safle'r iaith Gymraeg yn y gymuned.**

Mae diwylliant Cymru hir a balch yn Wrecsam, ac mae Wrecsam eisiau adeiladu ar hyn i greu synnwyr o falchder i'r iaith a diwylliant Cymraeg, a cheisio annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y Bwrdeistref Sirol. Hefyd, mae eisiau ymgysylltu â siaradwyr di-Gymraeg er mwyn creu dealltwriaeth debyg o bwysigrwydd yr iaith a hawliau'r rheiny sydd yn dymuno byw eu bywyd drwy gyfrwng y Gymraeg.

#### **(b) Cryfhau'r seilwaith ar gyfer yr iaith Gymraeg gan gynnwys technoleg ddigidol.**

Mae Cyfathrebu yn 24/7 bellach ac yn ddigidol. Mae'n hanfodol bod y Cyngor yn defnyddio'n effeithiol yr iaith Gymraeg i roi ei newyddion a gwybodaeth allan i'r cwsmeriaid a phreswylwyr mewn ffordd y maent yn ei ddisgwyl ac y gelwir amdano; mae'n rhaid iddo fod yn hygyrch ac ar gael yn gyfartal. Bydd hefyd yn ceisio datblygu gweithgareddau a mentrau sy'n apelio i breswylwyr sy'n siarad Cymraeg a'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg.

#### **(c) Cynyddu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i blant a phobl ifanc.**

Mae'r Cyngor yn ymwybodol bod un o'r ffyrdd mwyaf sylfaenol y bydd yn cyflawni ei amcanion o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, drwy barhau i fuddsoddi mewn addysg cyfrwng Cymraeg a darparu addysg cyfrwng Cymraeg i'r plant sydd eisiau gyda chefnogaeth ac anogaeth y maent eu hangen i ffynnu, a normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg.

#### **(d) Cynyddu darpariaeth o gyfleoedd i blant siarad Cymraeg y tu allan i amgylchedd yr ysgol.**

Cydnabu nad oes llawer o blant a phobl ifanc sydd yn siarad ac yn dysgu Cymraeg yn cael llawer o gyfleoedd i siarad yr iaith mewn gosodiad arferol a chymdeithasol. Mae'n hanfodol bod y Cyngor yn darparu mewn ffordd y mae plant a phobl ifanc yn cael y cyfle i siarad Cymraeg y tu allan i'r amgylchedd ysgol a'i brif ffrydio i'w bywydau bob dydd.

#### **(e) Cynyddu'r defnydd o Gymraeg yn y Gweithle.**

Pan fydd y Safonau yn cael eu sefydlu a'u prif ffrydio i'r ffordd y mae'r Cyngor yn gweithredu, mae mwy o angen ar gyfer gweithwyr sy'n siarad Cymraeg. Mae'r Cyngor wedi cael rhyw anhawster i recriwtio staff Cymraeg yn y gorffennol, ac mae'n croesawu cyflwyniad o'r Safonau sydd yn rhoi ysgogiad ychwanegol o ran ei ymdrechion i recriwtio staff Cymraeg a darparu gwasanaeth dwyieithog.

<b>Amcan 1:</b>	<b>Cryfhau safle'r iaith Gymraeg yn y gymuned;</b>
<b>Canlyniad:</b>	<b>Cynyddu'r defnydd o Gymraeg mewn siopau a busnesau.</b>

<b>Dangosyddion</b>			<b>Tymor Byr (2017)</b>	<b>Tymor Hir (2021)</b>
Y canran o staff gofal cwsmer canol y dref gyda sgiliau iaith Gymraeg rhesymol Cynydd yn y nifer o gwsmeriaid sy'n gofyn am wasanaethau trwy gyfwng y Gymraeg yn y Fwrdeistref Sirol			Sefydlu llinell sylfaen	Gwella'r Duedd
<b>Gweithgaredd:</b>	<b>Arweinydd</b>	<b>Tymor Byr (2017)</b>	<b>2018/19</b>	<b>Tymor Hir (2021)</b>
1. Cynnal arolwg i ganfod beth yw sgiliau iaith Gymraeg gweithwyr yn siopau/bwytai a busnesau canol y dref a'r Fwrdeistref Sirol	CBSW mewn partneriaeth a Menter Iaith Fflint a Wrecsam [MIFFAW] Fforwm Canol y Dref	Dylunio a chyflawni arolwg	Gweithio gyda'r busnesau a oedd yn gweld manteision darparu gwasanaethau yn Gymraeg i gymryd rhan yn y 'Cynllun Cymraeg mewn Busnes'	Sefydlu proses arolwg rheolaidd
2. Casglu gwybodaeth am y ddarpariaeth Gymraeg mewn busnesau yn Wrecsam a'i rannu'n eang	CBSW mewn partneriaeth â Menter Iaith Fflint a Wrecsam [MIFFAW] a Fforwm Canol y Dref	Cyflawni proses mapio	Mae Menter Iaith Fflint a Wrecsam [MIFFAW] wedi penodi Swyddog Datblygu 'Cymraeg Byd Busnes'. Ymgyrch ar y cyd i gynyddu defnydd y Gymraeg gan fusnesau lleol.	Adolygu bob dwy flynedd
3. Rhannu enghreifftiau o arfer gorau yn y sector cyhoeddus o ran y ddarpariaeth gwasanaeth Cymraeg	CBSW mewn partneriaeth gyda chyrrff cyhoeddus eraill yn y Bwrdeistref Sirol	Yn parhau	Defnyddio canlyniadau Adroddiad Sicrwydd Blynnyddol Comisiynydd y Gymraeg i efelychu arfer da o fannau eraill a'u mabwysiadu yn Wrecsam.	Yn parhau
4. Menter Iaith Maelor i fod yn aelod o	CBSW mewn partneriaeth	Erbyn mis Medi 2017	Cytunwyd na fyddant yn	



Fforwm Canol y Dref	Menter Iaith Flint a Wrecsam [MIFFAW] a Fforwm Canol y Dref		ymaelodi ond y byddant yn ymgysylltu a chynghori ar faterion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg.	
5. Sicrhau bod yr holl arwyddion newydd a rhai sy'n cael eu cyfnewid gan CBSW yn cydymffurfio â Safonau'r Iaith Gymraeg.	CBSW – pob adran	Yn parhau	Yn 2017/18, roedd y Cyngor yn destun sawl archwiliad ynglŷn â diffyg cydymffurfio honedig. Sicrhau bod cadw cydbwysedd yn effeithiol i negyddu unrhyw faterion pellach. Canolbwyntio ar y maes gwaith hwn fel blaenoriaeth eleni.	Yn parhau
6. Sicrhau bod CBSW yn darparu pob dull o gyfathrebu gyda'i phreswylwyr yn unol â Safonau'r Iaith Gymraeg	CBSW – holl staff	Yn parhau	Parhaus – ymdrin yn effeithiol gydag unrhyw enghraifft o ddiffyg cydymffurfio.	Yn parhau
7. Codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd i oedolion a phobl hŷn i ddysgu Cymraeg.	CBSW mewn partneriaeth â Coleg Cambria Menter Iaith Flint a Wrecsam [MIFFAW] a Clwb DAW Wrecsam	Sefydlu rhestr o ddarparwyr	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Cynnal rhestr a diweddaru ar wefan CBSW</li> <li>2. Defnyddio enghreifftiau o arfer gorau gan sefydliadau a phartneriaid eraill.</li> <li>3. Chwilio am gyfleoedd a'u hyrwyddo gan ddefnyddio dulliau cyfathrebu'r Cyngor.</li> </ol>	Diweddariad blynyddol a nodyn atgoffa
8. Creu pamffled wedi ei anelu'n benodol at siopau a busnesau er mwyn hyrwyddo'r manteision o ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog ac i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg.	CBSW mewn partneriaeth â Choleg Cambria a Menter Iaith Flint a Wrecsam [MIFFAW]	Erbyn mis Mawrth 2017	CBSW i weithio gyda'r Swyddog Datblygu 'Cymraeg Byd Busnes'	

<b>Amcan 1:</b>	<b>Cryfhau safle'r iaith Gymraeg yn y gymuned</b>
<b>Canlyniad:</b>	<b>Bydd preswylwyr Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cael cyfle i ymgysylltu a chyfrannu at amcanion a chanlyniadau'r strategaeth hon</b>

<b>Dangosyddion</b>			<b>Tymor Byr (2017)</b>	<b>Tymor Hir (2021)</b>
Rhan weithredol i breswylwyr wrth iddynt leisio eu safbwyntiau			Sefydlu llinell sylfaen	Gwella'r Duedd
<b>Gweithgaredd:</b>	<b>Arweinydd</b>	<b>Tymor Byr (2017)</b>	<b>2018/19</b>	<b>Tymor Hir (2021)</b>
1. Ceisio creu cymuned lle mae'r siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg yn cael cyfle i ddisgu am yr iaith a'r diwylliant a rhannu profiadau a dealltwriaeth.	CBSW mewn partneriaeth â Menter Iaith Fflint a Wrecsam [MIFFAW]	Dylunio a chyflawni arolwg	Ailadrodd yr arolwg i sefydlu: 1. A yw cyflwyno'r Safonau wedi arwain at ddefnydd cynyddol o'r Gymraeg 2. Ehangu'r arolwg i gynnwys partneriaid gwasanaeth cyhoeddus fel y gellir rhannu data/canlyniadau a dadansoddiad ar draws y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus [BGC] cyfan.	Sefydlu proses arolwg rheolaidd
2. Cynnal grwpiau ffocws blynyddol wedi eu hyrwyddo gan y cyhoedd gyda budd-ddeiliaid a phreswylwyr – siaradwyr Cymraeg a Saesneg	CBSW – tîm Gwasanaethau Polisi, Perfformiad a Gwelliannau	Cynnal y grŵp cyntaf erbyn mis Mawrth 2017	Gwaith parhaus fel rhan o ymgynghoriad 'Y Wrecsam a Garem'.	Blynyddol
3. Ymgynghoriad cyhoeddus blynyddol [ar hyd oes y strategaeth] er mwyn rhoi	CBSW – tîm Gwasanaethau Polisi a	Erbyn mis Ebrill 2017	Yn 2017, gwnaethpwyd hyn fel rhan o'r 'Wrecsam a	Blynyddol

adborth ffurfiol i'r Cyngor a'i bartneriaid/budd-ddeiliaid ar eu gwasanaethau Cymraeg a pherfformiad.	Pherfformiad mewn partneriaeth MIFFAW		Garem'. Yn 2018/19 bydd y Cyngor yn ategu ei arolygon iaith Gymraeg ar-lein gydag ymgynghoriad wyneb yn wyneb trwy grwpiau ffocws	
4. Sicrhau bod y Cyngor a'r Fwrdeistref Sirol yn cyfrannu'n effeithiol at ddyhead Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru o " <i>Gymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu</i> ".	CBSW a Bwrdd Y Gwasanaethau Cyhoeddus [Wrecsam]	Grŵp Ffocws yn Chwarter 4 2016/17	Bydd materion iaith Gymraeg a pharhaus yn cyfrannu at yr adborth ffurfiol gan y Cyngor fel yr amlinellwyd yng Nghynllun y Cyngor 2017-2022.	Yn parhau
5. Gofyn i Fenter Iaith Maelor gynorthwyo gyda'r elfennau sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg yn Aseidiadau Effaith ar Gydraddoldeb y Cyngor pan yw'r pwnc dan sylw yn ymwneud â materion yr iaith Gymraeg.	CBSW mewn partneriaeth MIFFAW	Yn parhau	Bydd agwedd mwy strwythuredig yn cael ei sefydlu a threfniant mwy ffurfiol yn cael ei ystyried.	Yn parhau

<b>Amcan 1:</b>	<b>Cryfhau safle'r iaith Gymraeg yn y gymuned</b>
<b>Canlyniad:</b>	<b>Creu cymuned lle mae siaradwyr Cymraeg a Saesneg yn dysgu am iaith a diwylliant Cymru</b>

<b>Dangosyddion</b>	<b>Tymor Byr (2017)</b>	<b>Tymor Hir (2021)</b>
Cynyddu'r nifer o bobl sy'n dysgu a defnyddio'r Gymraeg ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau o ran yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig.	Sefydlu llinell sylfaen	Gwella'r Duedd

<b>Gweithgaredd:</b>	<b>Arweinydd</b>	<b>Tymor Byr (2017)</b>	<b>2018/19</b>	<b>Tymor Hir (2021)</b>
1. Codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd i oedolion a phobl hŷn i ddysgu Cymraeg.	CBSW mewn partneriaeth â Menter Iaith Fflint a Wrecsam [MIFFAW], Coleg Cambria a Clwb DAW Wrecsam	Sefydlu rhestr o ddarparwyr	1. Cynnal y rhestr a diweddarau ar wefan CBSW 2. Defnyddio enghreifftiau o arfer gorau gan sefydliadau a phartneriaid eraill 3. Chwilio am gyfleoedd a'u hyrwyddo gan ddefnyddio dulliau cyfathrebu'r Cyngor.	Diweddariad blynyddol a nodyn atgoffa
2. CBSW i ddarparu dolenni i becynnau dysgu Cymraeg ar-lein am ddim ar ei wefan a thrwy ei gyfrifon cyfyngau cymdeithasol.	CBSW – Tîm Datblygu Gwefan	Wedi'i gwblhau	Fel yr uchod	Adolygiad blynyddol
3. Creu perthynas waith agosach gydag S4C, BBC Radio Wales, Radio Cymru ac ITV Wales i annog mwy o raglenni/sylw i'r Fwrdeistref Sirol.	CBSW - Swyddfa'r Wasg a Thîm Marchnata a Hyrwyddo	Trefnu cyfarfodydd erbyn mis Mawrth 2017	Mae hyn wedi bod yn llwyddiannus iawn yn 2017/18 gydag ymrwymadau eisoes wedi'u sefydlu e.e. Hwb	Cynyddu sylw

			Cymraeg.	
4. Ceisio cyfleoedd i Wrecsam fod yn rhan o ddathliadau cenedlaethol e.e. Llwyddiant Cymru yn y Pencampwriaethau Ewropeaidd.	CBSW - Swyddfa'r Wasg a Thîm Marchnata a Hyrwyddo	Trefnu cyfarfod gyda'r digwyddiadau Llywodraeth Cymru	Mae buddsoddiad Llywodraeth Cymru o ran Gogledd Ddwyrain Cymru trwy Ffocws Cymru. Mae'r Cyngor yn eu comisiynu ar hyn o bryd i ddarparu dau brif ddigwyddiad yn 2018/19 h.y. Dydd Llun Pawb a'r cynnig Iaith Gymraeg uwch fel rhan o Wyl Gerddoriaeth Mai.	Cynyddu Cyfranogiad
5. Adnabod a gweithio gyda darparwyr lleol i annog mwy o bobl i ddysgu Cymraeg.	CBSW mewn partneriaeth â Coleg Cambria a MIFFAW	Erbyn mis Ebrill 2017	Bydd hyn yn parhau ac archwilir llwybrau pellach gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer gwersi iaith Gymraeg am ddim.	Adolygiad blynyddol
6. Sicrhau bod y Gymraeg i'w gweld yng nghalon y ganolfan Gelfyddydau a Diwylliant newydd yn Wrecsam.	CBSW	Ehangu ethos cyfredol yn Oriel Wrecsam	Mae'r Cydlynnydd Iaith Gymraeg yn rhan o'r grŵp gorchwyl. Archwilio i gyllid ar gyfer prosiect diwylliannol iaith Gymraeg ar y cyd â'r Ganolfan Gelfyddydau.	Rhaglen Gymraeg/Cymreig llawn
7. Cyrff cyhoeddus yn y Fwrdeistref Sirol i ddarparu sesiynau Cymraeg am ddim yn ystod amser gwaith i ddysgwyr, y rhai sydd am wella a'r rhai rhugl yn y Gymraeg i ddysgu a gwella eu Cymraeg.	CBSW/Coleg Cambria/Prifysgol Glyndŵr/Betsi Cadwaladr	Yn parhau	I'w ddatblygu trwy'r BGC.	Yn parhau
8. Sicrhau bod y gwasanaethau cymdeithasol/holl ddarparwyr gofal yn	CBSW/Betsi Cadwaladr	Yr arfer gyfredol	Dyma'r flwyddyn olaf ar gyfer y Fframwaith. Hyd	Agolygiad blynyddol

y Fwrdeistref Sirol yn cydymffurfio â'r canlyniadau/targedau yn y fframwaith 'Mwy na Geiriau'			yma, ni ddarparwyd unrhyw wybodaeth am ei barhad na'i olynedd.	
---	--	--	--	--

<b>Amcan 2:</b>	<b>Cryfhau'r seilwaith ar gyfer yr iaith Gymraeg, gan gynnwys technoleg ddigidol</b>
<b>Canlyniad:</b>	<b>Mwy o bobl i ryngweithio'n ddigidol gyda'r Cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg</b>

<b>Dangosyddion</b>			<b>Tymor Byr (2017)</b>	<b>Tymor Hir (2021)</b>
Cynyddu'r nifer o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau ar-lein y Cyngor yn Gymraeg			Sefydlu llinell sylfaen	Gwella'r Duedd
<b>Gweithgaredd:</b>	<b>Arweinydd</b>	<b>Tymor Byr (2017)</b>	<b>2018/19</b>	<b>Tymor Hir (2021)</b>
1. Dyfeisio a gweithredu cynllun cyfathrebu penodol i annog mwy o bobl i gael mynediad i wasanaethau ar-lein yn y Gymraeg.	CBSW – Tîm Cysylltiadau Cyhoeddus a Gwe a Marchnata	Cynllun i'w ddatblygu erbyn mis Ebrill 2017	Bydd y cynllun yn cael ei adolygu yn chwarterol a'i ddiweddarau a'i ddiwygio i adlewyrchu defnydd/adborth/ystadegau. Mae wedi llwyddo i gynyddu niferoedd ac ymgysylltiad yn 2017/18.	Adolygiad blynyddol a diweddariad
2. Creu mwy o ymwybyddiaeth o gyfrifon Facebook a Twitter y Cyngor.	CBSW – Tîm Cysylltiadau Cyhoeddus a Gwe a Marchnata	Datblygu yn unol â'r cam gweithredu uchod	Adeiladu ar lwyddiant ymgyrch 2017/18. Parhau i geisio dod o hyd i ffyrdd newydd ac arloesol o wella ymwybyddiaeth.	Adolygiad chwarterol drwy fonitro SMP
3. Ceisio cyfleoedd pellach i annog mwy o bobl i gael mynediad i wefan y Cyngor yn y Gymraeg a chynyddu'r nifer o weithrediadau Cymraeg.	CBSW – Tîm Gwe	Datblygu yn unol â'r cam gweithredu uchod	Fel yr uchod	Adolygiad chwarterol drwy fonitro SMP
4. Sicrhau fod materion yr iaith	CBSW – holl adrannau	Drafftio a chyhoeddi	Diweddarau ac adolygu'r	Adolygiad

Gymraeg yn cael eu hystyried ar ddechrau unrhyw ymgyrchoedd ar-lein/ar y we yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd yr Iaith Gymraeg.	gyda chymorth y tîm Cysylltiadau Cyhoeddus a Gwe a Marchnata	canllaw	canllawiau gan ystyried adborth/dadansoddiad	blynyddol
---	--	---------	--	-----------

<b>Aim 2:</b>	<b>Cryfhau'r seilwaith ar gyfer yr iaith Gymraeg, gan gynnwys technoleg ddigidol</b>
<b>Canlyniad:</b>	<b>Mwy o bobl yn y Bwrdeistref Sirol i nodi eu bod yn siarad Cymraeg</b>

<b>Dangosyddion</b>		<b>Tymor Byr (2017)</b>	<b>Tymor Hir (2021)</b>	
Pan mae pobl a arolygwyd yn y Bwrdeistref Sirol yn ystyried eu hunain yn Gymro/ Cymraes [ddim yn siarad Cymraeg]		Sefydlu llinell sylfaen	Gwella'r Duedd	
<b>Gweithgaredd:</b>	<b>Arweinydd</b>	<b>Tymor Byr (2017)</b>	<b>2018/19</b>	<b>Tymor Hir (2021)</b>
1. Codi proffil mentrau lleol a chenedlaethol i gynyddu'r teimlad o 'Gymreictod' yn y Fwrdeistref Sirol e.e. Gemau Rygbi/Pêl-droed Cymru.	CBSW ar y cyd â'i bartneriaid	Adnabod cyfleoedd a chreu rhestr	Cynnal a diweddarau'r rhestr. Digwyddiadau penodol wedi'u cynllunio a'u hariannu o gyllideb yr iaith Gymraeg e.e. Hwb Cymraeg, Ffocws Cymru	Ymdeimlad cynyddol o 'Gymreictod'
2. Ceisio datblygu gweithgareddau a mentrau sy'n apelio i breswylwyr sy'n siarad Cymraeg a'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg.	CBSW mewn partneriaeth â MIFFAW	Cymraeg yn cael ei ystyried o'r dechrau pan fydd digwyddiad yn cael ei gynllunio	Ffurflen comisiynu digwyddiadau yn rhoi mwy o bwyslais ar yr iaith Gymraeg a'r diwylliant.	Cynnydd mewn cyfranogiad
3. Hyrwyddo mentrau sy'n codi ymwybyddiaeth genedlaethol e.e. 'Y Pethau Bychain'.	Holl Rhanddeiliaid	Drwy gyfryngau cymdeithasol	Sicrhau bod y Cyngor yn ceisio bod yn ymwybodol o'r cynlluniau hyn ac yn defnyddio'i ddulliau cyfathrebu i wella ymwybyddiaeth.	Monitro a thyfu

4. Parhau i gynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan yng ngorymdaith flynyddol Dydd Gŵyl Dewi.	MIFFAW gyda chefnogaeth CBSW	500	Nid yw 1,000 yn ymddangos yn uchelgeisiol yn y tymor hir. Roedd y presenoldeb yn 2017 yn tua 1,000. Yn 2018 ein nod fydd cynnydd o 10% a pharhau tan 2021.	1500
5. Datblygu rhaglen o ddigwyddiadau cerddoriaeth Gymraeg a Chymreig yn y Fwrdeistref Sirol.	CBSW a'i bartneriaid/ rhanddeiliaid	Datblygu rhestr	Fel y nodwyd, mae cynllunio ar gyfer digwyddiadau iaith Gymraeg ar y gweill.	Rhaglen lawn
6. Gwneud asesiad risg cydraddoldeb o'r cychwyn gydag unrhyw weithgareddau/digwyddiadau yn y Fwrdeistref Sirol i sicrhau fod materion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg yn cael eu hystyried o'r cychwyn.	CBSW – Tîm Marchnata a Cysylltiadau Cyhoeddus a'r Tîm Digwyddiadau	Ar gyfer holl ddigwyddiadau CBSW	Rheolwaith – rŵan yn rhan o'r ffurflen comisiynu digwyddiadau	Cynnal

<b>Amcan 3:</b>	<b>Cynyddu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i blant a phobl ifanc</b>
<b>Canlyniad:</b>	<b>Mwy o blant lefel cyn ysgol yn dysgu Cymraeg</b>

<b>Dangosyddion</b>		<b>Tymor Byr (2017)</b>	<b>Tymor Hir (2021)</b>
Cynnydd yn y nifer o blant sy'n mynychu grwpiau chwarae/ clybiau Cymraeg cyn ysgol		Sefydlu llinell sylfaen	Gwella'r Duedd
<b>Gweithgaredd:</b>	<b>Arweinydd</b>	<b>Tymor Byr (2017)</b>	<b>2018/19</b>
1. Gweithio gyda Mudiad Ysgolion Meithrin, Clych Ti a Fi a Dechrau'n Deg i sicrhau fod darpariaeth ddigonol o fewn cyrraedd hawdd i'r prif ardaloedd poblog.	CBSW – adrannau Addysg	Cynnal niferoedd	Ymgysylltu â MIFFAW i gynnal ymwybyddiaeth a chefnogaeth iaith i staff a gwirfoddolwyr lleoliadau gofal plant / grwpiau plant / oedolion
			Sicrhau bod darpariaeth yn diwallu'r galw



			sy'n gofalu am blant oed ysgol, gan eu gwneud yn fwy ymwybodol o'r adnoddau sydd ar gael ac yn rhoi cyngor ac arweiniad iddynt ar sut i ddefnyddio dylanwadu ar eu hymddygiad yn y gweithle. AAL i ymateb i'r 'cynnig gofal plant'	
2. Gweithio gyda'r uchod i hyrwyddo manteision addysg cyfrwng Cymraeg a rhoi'r wybodaeth berthnasol i rieni plant cyn ysgol er mwyn iddynt fod â gwybodaeth i wneud eu dewis.	CBSW mewn partneriaeth â MIFFAW a'r sefydliadau a restrir uchod.	Creu taflen erbyn mis Ebrill 2017	Taflen wedi'i gynhyrchu – 'Addysg cyfrwng Cymraeg: y gorau o ddau fyd'. CBSW i weithio i hyrwyddo'r daflen. Gweithio mewn partneriaeth i ddarparu cynllun 'Cymraeg i Blant' Llywodraeth Cymru.	Diweddariad ac adolygiad blynyddol
3. Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn grwpiau chwarae a meithrinfeydd dydd sy'n bennaf yn rhai cyfrwng Saesneg yn unig.	CBSW – adrannau Addysg	Creu rhestr o feithrinfeydd a sefydlu llinell sylfaen	Yn unol â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Cynlluniau gweithredu i fod ar waith erbyn Rhagfyr 2017. Bydd gwaith yn cefnogi Cymraeg 2050 a'r mesur Cenedlaethau'r Dyfodol.	Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg
4. Parhau i weithio gyda meithrinfa ddydd dwyieithog y Fwrdeistref Sirol, sef Sprouts, i sicrhau fod yr iaith	CBSW Plant a Phobl Ifanc	Sefydlu llinell sylfaen	Nid yw'r cyfleuster hwn yn bodoli bellach. Mae'r Cynllun Strategol	Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg

Gymraeg yn cael ei defnyddio'n eang.			Cymraeg mewn Addysg wedi nodi hwn fel cam gweithredu i archwilio'r galw.	
5. Rhoi cymorth i ddarparwyr gofal dydd cyn ysgol sy'n dymuno cynnig darpariaeth cyfrwng Gymraeg.	CBSW –Plant a Phobl Ifanc ac adrannau Addysg	Cynnig cyngor	Gweithio efo swyddog datblygu Byd Busnes a bydd yn darparu cymorth I ddarparwyr addysg cyn-ysgol sydd a diddordeb cynnig darpariaeth yn y Gymraeg	Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg
6. Cynnal y dilyniant o ran yr iaith o'r Cylchoedd Meithrin i addysg gynradd cyfrwng Gymraeg.	CBSW drwy Cynllun Strategol Gymraeg mewn Addysg	100%	100%	100%

<b>Amcan 3:</b>	<b>Cynyddu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i blant a phobl ifanc</b>
<b>Canlyniad:</b>	<b>Mwy o blant lefel ysgol gynradd yn dysgu Cymraeg</b>

<b>Dangosyddion</b>			<b>Tymor Byr (2017)</b>	<b>Tymor Hir (2021)</b>
Cynydd yn y nifer o blant yn dysgu'r Gymraeg mewn ysgolion cynradd yn y Bwrdeistref Sirol			Sefydlu llinell sylfaen	Gwella'r Duedd
<b>Gweithgaredd:</b>	<b>Arweinydd</b>	<b>Tymor Byr (2017)</b>	<b>2018/19</b>	<b>Tymor Hir (2021)</b>
1. Cynyddu'r nifer o ddisgyblion sy'n trosglwyddo o ofal plant/gofal cyn ysgol cyfrwng Cymraeg i ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg.	CBSW drwy Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg	100%	100%. Nid yw ffigurau 2016/17 ar gael. Disgwylir data 2016/17 ddiwedd Tachwedd 2017.	1005
2. Cynyddu nifer y plant 7 mlwydd oed sy'n cael eu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.	CBSW drwy'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg	12.5	12.8%	15%
3. Sicrhau nifer ddigonol o lefydd i blant sydd eisiau addysg cyfrwng Cymraeg ar lefel gynradd.	CBSW drwy'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg	244 ar gael 238 wedi'u cymryd	285	270
4. Agor ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn y Fwrdeistref Sirol.	CBSW	Adroddi'r Bwrdd Gweithredol yng ngwanwyn 2017	Aros am ganlyniadau'r ymgynghoriad a'r AALI ar gyfer y camau nesaf.	Ysgol newydd wedi agor
5. Cynyddu'r gallu i fanteisio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy gynllun addysg drochi.	CBSW drwy'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg	18	I'w gynnal.	20
6. Cynyddu nifer y disgyblion cyfrwng Cymraeg sy'n trosglwyddo i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg.	CBSW drwy'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg	95%	Dim ffigurau ar gael yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg eto.	100%
7. Yr holl ddisgyblion cynradd yn y Fwrdeistref Sirol yn gadael yn gallu siarad Cymraeg i lefel cydnabyddedig.	CBSW drwy'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg	Amherthnasol	Amh, ond dyma'r ffocws ar gyfer y Cynllun Strategol Cymraeg	100%

			mewn Addysg 2017-2020.	
8. Yr holl ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn Wrecsam i dderbyn Safon Aur yn Siarter yr Iaith Gymraeg.	CBSW – adrannau Addysg	Efydd	Arian.	Aur

<b>Amcan 3:</b>		<b>Cynyddu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i blant a phobl ifanc</b>		
<b>Canlyniad:</b>		<b>Mwy o blant yn dewis addysg cyfrwng Cymraeg ar lefel uwchradd</b>		
<b>Dangosyddion</b>			<b>Tymor Byr (2017)</b>	<b>Tymor Hir (2021)</b>
Cynnydd yn y nifer o ddysgwyr sy'n mynychu Ysgol Morgan Llwyd			Sefydlu llinell sylfaen	Gwella'r Duedd
<b>Gweithgaredd:</b>	<b>Arweinydd</b>	<b>Tymor Byr (2017)</b>	<b>2018/19</b>	<b>Tymor Hir (2021)</b>
1. Gweithio gyda'r Awdurdod Addysg Lleol i lunio cynlluniau i gynyddu'r ddarpariaeth iaith Gymraeg o ganlyniad i'r cynnydd y rhagwelir yn y sector cynradd.	CBSW drwy Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg	Cyflawni adolygiad	Yn unol â'r camau gweithredu yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg	Cynyddu'r niferoedd yn Ysgol Morgan Llwyd
2. Cynyddu'r nifer o ddisgyblion yn y Cynllun 'Trochi'.	CBSW drwy Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg	18	18	20
3. Cynyddu'r nifer o ddysgwyr 14-16 oed sy'n astudio am gymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg.	CBSW drwy Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg	100%	100%	100%
4. Cynyddu nifer y disgyblion 16-19 oed sy'n astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.	CBSW drwy Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg	42%	Dim ffigurau ar gael yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Ond, roedd y camau gweithredu i fynd i'r afael â hyn yn cynnwys.	50%
5. Creu dosbarthiadau chweched dosbarth ychwanegol yn Ysgol Morgan Llwyd.	CBSW drwy Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg	Ceisio cymeradwyaeth Bwrdd Gweithredol	Mae trafodaethau ar gyfer datblygu ystafelloedd dosbarth parhaol ychwanegol yn Ysgol Morgan Llwyd yn parhau.	6 dosbarth ychwanegol
6. Datblygu cynllun prentisiaeth fodern yn y Gymraeg.	CBSW – Tîm Hyfforddiant	Cytuno ar gylch gorchwyl	Yn 2017, creodd y Cyngor 2 swydd prentis modern	6

			gyda'r Gymraeg yn hanfodol. Hyrwyddwyd y ddau yn eang ac roedd ymgysylltu yn dda. Yn yr ail rownd hyrwyddo, daethpwyd o hyd i un ymgeisydd ar gyfer un o'r swyddi ond gwnaethant dynnu'n ôl o'r broses. Byddwn yn cynnal y broses eto eleni.	
7. Gweithio gydag adrannau'r Cyngor i fynd i'r ysgol i ddarparu sesiynau yn y Gymraeg ar eu meysydd gwaith ac annog mwy i ymuno â'r Cyngor.	CBSW – pob adran	Un adran erbyn mis Ebrill 2017	Adran Gwasanaethau Corfforaethol a Cwsmeriaid I fynychu'r ffair gyrfaedd yn Ysgol Morgan Llwyd	4 adran
8. Codi mwy o ymwybyddiaeth ymhlith dysgwyr Cymraeg o'r ddarpariaeth ddwyieithog sydd ar gael a chyfleoedd am swyddi sy'n gofyn am sgiliau dwyieithog.	CBSW mewn partneriaeth â Choleg Cambria	Sefydlu methodoleg	Sefydlu a all CBSW a'r BGC ddatblygu cynllun gweithredu gyda Choleg Cambria.	Dysgwyr Cymraeg
9. Y Cyngor a chyrrff cyhoeddus eraill i sicrhau cyfleoedd o ran swyddi i'r rhai sy'n gadael ac nad ydynt yn dymuno parhau gyda'u hastudiaethau academaidd a sy'n dymuno mynd i mewn i'r farchnad swyddi lleol.	CBSW/ Coleg Cambria/ PSB	Sefydlu llinell sylfaen	Bydd yr ALL, mewn partneriaeth â'r holl ysgolion uwchradd, Coleg Cambria, Gyrfa Cymru a diwydiannau, yn ymdrechu i hyrwyddo a chodi proffil o'r manteision, yn ogystal â'r cyfleoedd cyflogaeth a	Cynyddu cyfleoedd

			gyrfa.	
<b>Amcan 4:</b>	<b>Cynyddu darpariaeth o gyfleoedd i blant siarad Cymraeg y tu allan i amgylchedd yr ysgol</b>			
<b>Canlyniad:</b>	<b>Mwy o blant gyda'r gallu a hyder i siarad Cymraeg mewn gosodiad cymdeithasol</b>			
<b>Dangosyddion</b>			<b>Tymor Byr (2017)</b>	<b>Tymor Hir (2021)</b>
Mwy o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfrwng Cymraeg sydd wedi'u trefnu			Sefydlu llinell sylfaen	Gwella'r Duedd
<b>Gweithgaredd:</b>	<b>Arweinydd</b>	<b>Tymor Byr (2017)</b>	<b>2018/19</b>	<b>Tymor Hir (2021)</b>
1. Cynyddu nifer y plant a phobl ifanc yn y Fwrdeistref Sirol sy'n aelodau o'r Urdd.	CBSW mewn partneriaeth â'r Urdd	641	833	1000
2. Casglu gwybodaeth am y nifer o blant cynradd ac uwchradd sy'n cymryd rhan bob blwyddyn yn Eisteddfod yr Urdd.	CBSW mewn partneriaeth â'r Urdd ac Ysgolion yn y Bwrdeistref Sirol	Nodi'r niferoedd	Aros am ymateb gan yr Urdd.	cynyddu
3. Parhau i ariannu gweithiwr ieuenctid yr Urdd i geisio cynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan yn y gweithgareddau cyfrwng Cymraeg y cytunwyd arnynt.	CBSW Plant a Phobl Ifanc	Cynnal	Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn nodi y bydd y cyfle i gyflogi Gweithiwr Ieuenctid yr Urdd llawn amser yn cael ei ymchwilio.	cynnal
4. Cynyddu'r nifer o bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn cyfleoedd gwirfoddoli trwy gyfrwng y Gymraeg.	CBSW ar y cyd ag ysgolion, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam, grwpiau chwaraeon lleol a Choleg Cambria	Cyflawni adolygiad	Gweithio gyda'r Urdd i ddatblygu cynllun i gynyddu niferoedd.	Cynyddu niferoedd a chyfleoedd
5. Cynyddu nifer y disgyblion sy'n derbyn Gwobr Dug Caeredin Efydd neu Arian yn Ysgol Morgan Llwyd.	CBSW – adran Addysg	Cyflawni adolygiad	Ceisio dod o hyd i leoliadau Cymraeg ar gyfer elfen gwirfoddoli y cymhwyster.	Cynyddu niferoedd
6. Cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n	Menter Iaith Fflint a	500	Nid yw 1,000 yn	1000

cymryd rhan yng ngorymdaith Dydd Gŵyl Dewi.	Wrecsam [MIFFAW] mewn partneriaeth â CBSW		y addeddangos yn uchelgeisiol yn y tymor hir. Roedd y presenoldeb yn 2017 yn tua 1,000. Yn 2018 byddwn yn ceisio cynnydd o 10% a pharhau tan 2021.	
7. Cynnal arolwg i sefydlu'r angen i gynnal gwersi nofio trwy gyfrwng y Gymraeg.	CBSW mewn partneriaeth â Freedom Leisure	Recriwtio hyfforddwr sy'n siarad Gymraeg erbyn mis Mawrth 2017	Mae gan y Cyngor y gallu i ddarparu gwersi nofio dwyieithog. Cynllun Gweithredu wedi'i gymeradwyo gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 27.11.17	Pob lefel o wersi nofio yn cael eu darparu yn y Gymraeg



<b>Amcan 5:</b>		<b>Cynyddu'r defnydd o Gymraeg yn y Gweithle.</b>		
<b>Canlyniad:</b>		<b>Mwy o bobl yn siarad Cymraeg yn y Cyngor</b>		
<b>Dangosyddion</b>		<b>Tymor Byr (2017)</b>		<b>Tymor Hir (2021)</b>
Cynydd, bob blwyddyn, yn y nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Cyngor		Sefydlu llinell sylfaen		Gwella'r Duedd
<b>Gweithgaredd:</b>	<b>Arweinydd</b>	<b>Tymor Byr (2017)</b>	<b>2018/19</b>	<b>Tymor Hir (2021)</b>
1. Sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio'n llwyr â'i ddyletswyddau o ran Safonau'r Iaith Gymraeg.	CBSW	Fel y mae ar hyn o bryd	Parhaus am y tro yn eu fformat presennol. Aros am ganlyniad yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar gyfer y camau nesaf.	Cynnal
2. Cadw rôl Aelod Arweiniol gyda chyfrifoldeb am yr iaith Gymraeg.	CBSW	Fel y mae ar hyn o bryd	Cynnal	Cynnal
3. Diweddarau a chryfhau ffurflen rheoli swyddi gwag y Cyngor i sicrhau fod ystyriaeth ddyledus a phriodol yn cael ei roi i'r iaith Gymraeg a chreu swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol.	CBSW – Adran Adnoddau Dynol	Erbyn mis Mawrth 2017	Camau pellach: Cydlynnydd yr Iaith Gymraeg i fod yn ymwybodol o'r holl swyddi newydd. Gweithio'n agosach gydag adrannau ac AD i hysbysebu a hyrwyddo swyddi Cymraeg yn hanfodol.	Parhaus
4. Ceisio cynyddu'r nifer o swyddi [di-ysgolion] sy'n cael eu hysbysebu yn y Cyngor lle mae'r Gymraeg yn hanfodol a'u llenwi gyda siaradwyr Cymraeg sydd wedi cymhwyso'n addas.	CBSW – Adran Adnoddau Dynol	4	6	12
5. Pan nad yw swyddi wedi eu dynodi fel swyddi lle mae'r 'Gymraeg yn hanfodol' bydd yr holl swyddi sy'n	CBSW – Adran Adnoddau Dynol	O fis Ebrill 2017 ymlaen	Monitro cydymffurfio	Yn parhau

weddill yn nodi'r Gymraeg 'yn ddymunol' a bydd hysbysebion yn nodi y croesawir ceisiadau gan siaradwyr Cymraeg.				
6. Creu rôl cydlynedd yr Iaith Gymraeg.	CBSW	Wedi'i gwblhau – dyddiad dechrau 3.4.17	Cynnal	Cynnal
7. Sefydlu pencampwyr yr iaith Gymraeg ymhob adran.	CBSW	O fis Mai 2017 ymlaen	Cynnal cyswllt. Y Cydlynedd Iaith Gymraeg i weithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer cyngor ac arweiniad.	Cynnal
8. Cynyddu nifer y staff sy'n cael hyfforddiant yn ymwneud â'r Gymraeg wedi ei ddarparu gan y Cyngor.	CBSW – Tîm Hyfforddi	51	Ffigwr cyfoes yw 46. Creu 51 o lefydd ar gyfer y flwyddyn. Chwilio am gyfleoedd eraill am gyrsiau am ddim a thaladwy.	65
9. Gosod Cysill a Cysgeir [y gwiriwr sillafu a gramadeg Cymraeg] ar gyfer siaradwyr Cymraeg a darparu hyfforddiant ar ei ddefnydd.	CBSW - TG	Wedi'i gwblhau	Atgoffa blynyddol. Awtomatig ar gyfer swyddi Cymraeg yn hanfodol.	
10. Mae'r holl staff wedi cwblhau modiwl e-ddysgu Ymwybyddiaeth o'r Iaith Gymraeg.	CBSW	Erbyn mis Medi 2017	Bydd yn ran gorfodol o'r broses PRD.	Adolygiad blynyddol a diweddariad
11. Staff yn mynychu'r 'sesiwn siarad' Cymraeg wythnosol yng nghanolfan CAMU yng Ngholeg Cambria.	CBSW	10	Aros am ateb gan Goleg Cambria.	20